Gorsaf Dân Gymunedol Merthyr Tudful

Diogelu'r Gymuned am y Flwyddyn i Ddod

South Wales Fire and Rescue Service

Gwasanaeth Tân ac Achub **De Cymru**

CODI YMWYBYDDIAETH - LLEIHAU PERYGL

Annwyl Gymydog,

Fel Pennaeth Gorsaf Dân Gymunedol Merthyr Tudful, hoffwn rannu ein cynlluniau gyda chi ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Bydd y rhain yn rhoi gwasanaeth lleol gwell fyth i chi.

Fel erioed, ein nod yw ymateb i'ch galwadau am help mor gyflym ag y gallwn. Rydyn ni'n bwriadu gweithio'n galetach nag erioed i atal argyfyngau rhag digwydd yn y lle cyntaf. Yn ystod y deuddeng mis nesaf, ein nod yw:

- Cynnal Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref AM DDIM a gosod larymau mwg yn rhad ac am ddim pan fydd eu hangen. Ffoniwch (0800 169 1234) neu ymwelwch â'r Orsaf Dân i drefnu apwyntiad.
- Ymweld â'n holl ysgolion lleol i addysgu plant wyth ac un mlwydd ar ddeg oed am beryglon tân.
- Cynnal asesiadau tebygrwydd llosgi bwriadol lleol a gweithio gyda gwasanaethau lleol i gael gwared â sbwriel a pheryglon tân posibl eraill.
- Gweithio gyda'r Heddlu a'r Cyngor Bwrdeistref i leihau nifer uchel y tanau ceir bwriadol ym Merthyr a'r ardal.
- Gweithio gyda'r Heddlu a phartneriaid eraill i addysgu gyrwyr ifanc a lleihau gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd.
- Cael rhywun yn yr Orsaf i roi cyngor ac arweiniad Diogelwch Tân yn y Cartref am ddim bob dydd Mercher o 11:00am tan 4:00pm.
- Parhau i ymweld â ffatrïoedd a safleoedd diwydiannol yn rheolaidd i sicrhau ein bod wedi ein paratoi'n ddigonol os digwydd tân.
- Cynnal ymarferiadau hyfforddi oddi ar yr Orsaf yn barhaus i sicrhau bod yr Ymladdwyr Tân yn parhau i fod yn hollol barod.

Cofion,
Pennaeth yr Orsaf,
Gorsaf Dân Merthyr Tudful

'HELPWCH NI I'CH HELPU CHI'

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn ymdrechu'n barhaus i wella'n gwasanaethau ar eich cyfer.

Os oes gennych ddiddordeb cyfrannu tuag at ein gwelliant drwy gwblhau holiaduron arolwg yn achlysurol, neu os hoffech gael ymateb i unrhyw sylwadau sydd gennych ar y cynlluniau hyn, darparwch eich enw a'ch cyfeiriad, rhif ffôn ag e-bost (os oes gennych un) drwy un o'r ffyrdd canlynol, gan ddyfynnu enw'r Orsaf Dân ar flaen y daflen hon, ynghyd ag unrhyw sylwadau sydd gennych.

Bydd unrhyw fanylion a ddarparwch yn cael eu dal gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru mewn modd sy'n cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998. Ni fyddwn yn trosglwyddo'r data i unrhyw drydydd parti, byddwn ond yn defnyddio'r data ar gyfer eich darparu chi gyda holiaduron neu unrhyw wybodaeth arall yr ydych wedi gwneud cais amdani.

E-bost: *performance@southwales-fire.gov.uk*

Rhif Ffôn: *01443 232156* neu

Rhadbost:
Rhadbost RSAU-CCXG-XKAS
Uned Rheoli Perfformiad (Cyf 26)
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru,
Parc Busnes Forest View, Llantrisant,
PONT-Y-CLUN CF72 8LX.